

CYNGOR CYMUNED PENNAL

Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener y 1af o Fedi 2023 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.

Presennol; Rhys Parry, James Brunton, William Rees, Hywel Evans, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Rhys Parry. Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Ken Griffiths, Meirion Roberts ac Aled Rees. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.
2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg o Orffennaf ar gynnig Cyng. James Brunton a'i eilio gan William Rees.
4. **Materion yn codi.**
 - Dwr yn sefyll o flaen Ty Alys – cyfeiriwyd eto at ymateb Cyngor Gwynedd. Gwelwyd fod y Cyngor Cymuned wedi gwenud pob peth oedd yn bosib, ond y dylid pwysu ar Sion Wilkes i ddod i ymweld a'r safle ar adeg o law trwm. Hefyd dylid cael lluniau o'r sefyllfa ar y cyfnodau gwaethaf.
 - Tir ger Graiandy – roedd y Clerc wedi atgoffa Adra yn ddiweddar er mwyn cael ymateb llawn.
 - Mynwent yr Eglwys – adroddwyd y diweddaraf am y fynwent yma a oedd ym mherchnogaeth yr Eglwys. Roedd y gwaith o dorri goed yn mynd yn ei flaen, er bod un goeden fawr ar ol, a llawer o waith i'w wneud eto cyn y gallai y Cyngor Cymuned ystyried gwneud penderfyniad pellach. Mynegwyd pryder mawr am gymryd y cyfrifoldeb am y fynwent hon, a fyddai yn golygu costau a liability mawr i'r Cyngor Cymuned, ac yn faich enfawr. Fodd bynnag, dywedwyd y byddai'r Cyngor yn fodlon gwneud gwaith tacluso. Penderfynwyd trafod eto yn y cyfarfod nesaf, pryd y byddai'r gwaith wedi ei gwblhau.
 - Biniau baw cwn - yn dilyn y gohebu, roedd y Clerc a'r Cadeirydd wedi cyfarfod y warden cwn Alan Hughes ar y 1af o Awst a thrafod oddiamgylch y pentref. Cafwyd cyfarfod da, a balchder fod y mater wedi ei ddatrys. Roedd dau fin newydd wedi ei rhoi, ac adnewyddu un arall.
 - Carafan static wedi ei lleoli yn Cwm Sylwi, ac ail garafan gyferbyn a'r Rheithordy - nid oedd ymateb pellach gan y Parc Cenedlaethol, ac roedd y Clerc wedi eu hatgoffa.
 - Archwilo cyfrifon 2022-23 – roedd y cyfan yn awr wedi ei ddanfôn i'r Archwilydd allanol, ac hysbysebion wedi eu gosod ar y ddau hybysfwrdd ac ar y wefan. Roedd pob ymdrech wedi ei wneud i roi y cyfan o'r wybodaeth sydd ei angen iddynt. Yn ddi-os byddai yna ymholiadau eto, a byddai rhaid ymdrin a hyn fel bo'r galw. Aethpwyd drwy benawdau y pwyntiau a godwyd gan yr Archwilydd mewnol, a byddai rhaid ymdrin a hyn yn ystod y flwyddyn. Un mater oedd y ffaith nad oedd y Gofrestr Asedau yn cael ei chadw yn gyfredol, **a byddai rhaid trafod hyn y tro nesaf.**
 - Rheolau Sefydlog Un Llais Cymru – adroddodd y Clerc fod y rhaid mynd drwy y ddogfen, a byddai'r Clerc yn cesio gwneud hyn erbyn y tro nesaf. Yna byddent yn cael eu cylchredeg i bawb i gael golwg arnynt, yna eu mabwysiadu.

- Mandad banc y Cyngor – cadarnhawyd fod hyn bellach wedi ei brosesu, Roedd angen I'r Cadeirydd, Cyng Aled Rees a'r Clerc I arwyddo pob sic.
- Cais gan y Ganolfan i dalu cost wi-fi - £436.44 y flwyddyn – roedd y cais yma wedi ei drafod y tro diwethaf, ac roedd Meirion wedi gwneud ymholiadau, ond nid oedd modd cael y gost I lawr. Yn dilyn trafodaeth, teimlo oedd y Cyngorwyr eu bod angen mwy o wybodaeth am pwy sy'n defnyddio y wi-fi, a hefyd faint o ddefnydd sydd yna. Nid oedd y Swyddfa Bost yn y Ganolfan bellach lle fyddai ei angen. Roedd teimlad hefyd fod talu y cyfan yn dipyn o arian o braesept y Cyngor, gan gofio hefyd nad yw hyn wedi ei roi yn y gyllideb am eleni. Byddai y Clerc yn danfon nodyn I'r ganolfan, a phenderfynwyd trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf ar Nos Wener y 13eg o Hydref.

5. Materion Cynllunio

Roedd un cais i law, sef;

NP5/75/LB153C – Pant Lludw, Pennal – caniatad adeilad rhestredig ar gyfer atgyweirio y porch presennol a gosod gwydr eilaidd mewnol i 3 ffenestr Ffrengig ar ddrychiad de-ddwyreiniol y ty o fewn y feranda.

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd nad oedd unrhyw wrthywnebiad, a byddai y Clerc yn ymateb i'r Parc Cenedlaethol.

6. Materion Cyllid.

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, sef Cyfri cyfredol £10,707.93 a Cyfri Cadw £2,614.91. Cadarnhawyd fod ail ran y praesept I law, sef £7500.

b) Roedd anfoneb toiledau cyhoeddus Pennal gan Gyngor Gwynedd wedi ei ddsbarthu I bawb ymlaenllaw, ac roedd pawb wedi cytuno ar y swm arferol o £4000.

c) Cytunwyd I dalu anfoneb gan Gyngor Gwynedd am y gwaith gyda'r archwilio mewnol am swm o £324.

7. Gohebiaeth.

a) Nodwyd ddeiseb oedd wedi ei danfon i Gyngor Gwynedd gan drigolion Cwrt i ddod a terfyn cyflymder o 40mya i 30mya. (roedd wedi ei ddsbarthu i bawb o'r Cyngorwyr ymlaenllaw) Roeddynt yn gofyn am e-bost un ohonynt I hwyluso cysylltu. Enwebwyd un o'r trigolion, a byddai y Cadeirydd yn ceisio cysylltu I gael yr e-bost a dychwelyd at y Clerc gyda'r wybodaeth.

b) Hyfforddiant Cyngorwyr – amlinellwyd bwysigrwydd hyn, a rhestrwyd y cyrsiau oedd ar gael yn rhad ac am ddim. Byddai rhaid trefnu cwrs i bawb allu mynychu, a byddai rhaid trafod y tro nesaf.

c) Darllenwyd e-bost gan Mabon ap Gwynfor ynglyn a darpariaeth deintyddol , a gwahoddiad i gyfarfod dros zoom ar yr 11eg o Fedi. Enwebwyd Aled Rees I fod yn rhan o hyn, a byddai'r Cadeirydd yn pasio'r wybodaeth ymlaen iddo.

- d) Nodwyd ffurflen gan Banel Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol gan Llywodraeth Cymru - I'w llenwi yn cadarnhau nad oedd neb eisiau hawlio unrhyw dreuliau o Gyngor Cymuned Pennal.

8. Unrhyw fater arall.

Roedd cais I law yn nghyswllt Menter y Glan – sef fod Cyngor Gwynedd yn glanhau draeniau unwaith y flwyddyn yn rhad ac am ddim. Gwelwyd y byddai rhaid trafod yr amseru gyda Sion Wilkes.

Byddai'r cyfarfod nesaf Nos Wener 13eg o Hydref yn y Ganolfan am 7.30.

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.10pm.